Codi pontydd

Trosolwg

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar gynorthwyo plant i roi prawf ar wahanol ddeunyddiau o ran eu maint a'u cryfder ac, felly hefyd, o ran y modd y gellir eu defnyddio i fynd dros rwystr, e.e. pwll.



Gweithgareddau

- Crëwch bont 'wastad' i groesi ardal heb gyffwrdd â'r llawr.
- Anogwch y plant i ddewis deunyddiau i gadw cydbwysedd arnynt, a chofiwch gael pawb i groesi o'r naill ochr i'r llall.
- Datblygwch y gweithgaredd drwy herio'r plant i godi pont dros rwystr, e.e. pwll.
- Sicrhewch fod y plant yn profi bod y bont yn gallu dal eu pwysau cyn iddynt gerdded drosti.

Offer

Amrywiaeth o 'bontydd', e.e. :

- Estyll pren
- Teiars
- Tarpolins
- Bwcedi
- Sgwariau o garped

Cwestiynau allweddol

Pa ddeunyddiau yw'r rhai cryfaf?
Sut y byddwch yn profi bod eich pont yn ddigon cryf i chi gerdded ar ei thraws?
Pa ddeunyddiau sy'n gallu dal y nifer fwyaf o blant?
Pa ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio i godi pontydd go iawn, a pham?

Deilliannau dysgu

Mae'r gweithgaredd hwn yn hybu amrywiaeth eang o sgiliau a deilliannau dysgu – gwaith tîm, sgiliau datrys problemau, sgiliau echddygol bras (cadw cydbwysedd a chario), sgiliau cyfathrebu, pwysau a mesuriadau, iaith leoliadol, siâp.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Cysylltwch y gweithgaredd â straeon sy'n cynnwys pontydd.
- Gosodwch heriau, e.e. 'Allwn ni godi'r bont hiraf/y bont fyrraf/y bont dalaf?'
- Rhannwch luniau o bontydd go iawn gan ganolbwyntio ar y deunyddiau a'r siâp